# Am bwy rydym ni'n chwilio

Mae ein Swyddogion Gweithredol yn helpu helpu cynnal y systemau a phrosesau busnes allweddol sy'n cefnogi ein gwaith arolygu a chyngor, ac mewn swyddogaethau arbenigol yn ogystal, fel yr Ysgrifenyddiaeth, AD, Cyllid, TG ac Ymchwil.

Byddwch chi'n gyfrifol am sicrhau bod ein swyddogaethau allweddol yn cael eu cyflawni, e.e. cynllunio ein gweithgarwch arolygu, cefnogi darparwyr a thimau arolygu trwy gydol y broses arolygu neu gefnogi ein gwaith thematig pwysig. Mae hwn yn gyfle rhagorol i weithio o fewn amgylchedd tîm cefnogol. Os ydych chi'n siarad Cymraeg, byddwch chi'n defnyddio eich medrau cyfathrebu yn Gymraeg ac yn Saesneg, fel ei gilydd.

Bydd eich rôl yn cynnwys amrywiaeth o wahanol gyfrifoldebau yn defnyddio pecynnau meddalwedd a systemau TG, er enghraifft:

- Darparu cymorth gweinyddol a gwasanaeth cwsmeriaid cryf ac effeithiol
- Delio ag ymholiadau sy'n benodol i rôl gan randdeiliaid mewnol ac allanol, gan gymryd camau angenrheidiol lle bo'n briodol
- Drafftio gohebiaeth ysgrifenedig i randdeiliaid allanol
- Datblygu a chynnal prosesau gwaith trylwyr a chofnodion cywir
- Cymryd perchnogaeth o brosiectau o fewn eich tîm a sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni'n brydlon ac yn gywir
- Datrys problemau i ymateb i ymholiadau gan gydweithwyr, darparwyr addysg a thimau arolygu
- Cyfathrebu â phobl ar bob lefel o fewn Estyn, ac yn allanol
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill y gellid gofyn amdanynt yn rhesymol, gan gynnwys cyflenwi ar ran rolau Swyddog Gweithredol eraill

Mewn rhai rolau, byddwch yn rheoli tîm bach.

Byddwch chi:

- yn mwynhau her  baich gwaith amrywiol
- yn meddu ar hanes da o ymdopi â thasgau lluosog i fodloni terfynau amser
- yn meddu ar fedrau cyfathrebu rhagorol (ar lafar ac yn ysgrifenedig)
- yn gyfforddus yn cael sgyrsiau sensitif
- yn defnyddio'ch medrau datrys problemau i ymateb i ymholiadau gan gydweithwyr, darparwyr addysg a thimau arolygu
- yn hyderus yn defnyddio TG

